14–16 oed

# Geirfa hygyrch ar gyfer termau allweddol: cemeg feintiol

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY

Education
Inspiring your teaching and learning

Ar gael yn rsc.li/439IYXj, nodiadau i athrawon ar gael

# Cynnwys

I gael gwybod sut i ddefnyddio'r adnodd hwn, ac i gael awgrymiadau metawybyddol, syniadau ar gyfer cefnogi a herio, ac adnoddau cysylltiedig, ewch i: rsc.li/3Gi9HHN

## Swm y sylwedd mewn molau


Swm y sylwedd (n) ....................sleid 4

Rhif Avogadro..............................sleid 5

Decimetr ciwbig ($dm^3$)...............sleid 6

Fformiwla empirig ........................sleid 7

Màs (m)...........................................sleid 8

Màs molar (M)..............................sleid 9

Cyfaint molar nwy ($V_m$)..............sleid 10

Môl (mol) .......................................sleid 11

Cyfaint (V) ....................................sleid 12


## Hafaliadau cemegol cytbwys


Economi atomau..........................sleid 13

Hafaliad symbolau cytbwys........sleid 14

Sgil gynnyrch.................................sleid 15

Fformiwla gemegol.......................sleid 16

Gormodedd adweithydd...........sleid 17

Adweithydd cyfyngol..................sleid 18

# Cynnwys


## Crynodiad hydoddiannau a thitradiad

Bwred..........................................sleid 19

Crynodiad (c)...........................sleid 20

Canlyniadau cydgordiol...........sleid 21

Diweddbwynt............................sleid 22

Silindr mesur...............................sleid 23

Dangosydd pH...........................sleid 24

Pibed...........................................sleid 25

Hydoddiant...............................sleid 26

Titradiad.....................................sleid 27

Titr...............................................sleid 28

## Cyfeintiau nwyon a masau sy'n adweithio

Cynnyrch gwirioneddol................sleid 29

Chwistrell nwy................................sleid 30

Cynnyrch canrannol......................sleid 31

Cynnyrch a ragfynegir/
cynnyrch damcaniaethol.............sleid 32

Clorian..........................................sleid 33

## Màs cymharol

Cyfansoddiad canrannol............sleid 34

Màs atomig cymharol ($A_r$)...........sleid 35

Màs fformiwla cymharol ($M_r$)........sleid 36

Màs cymharol...............................sleid 37

# Swm y sylwedd

faint o atomau, moleciwlau neu unedau fformiwla sydd mewn sampl o'r sylwedd, caiff ei fesur mewn molau (mol)

**Mewn geiriau eraill ...**
faint o ronynnau sydd mewn sylwedd, mewn molau

**Enghraifft**
Dau fôl oedd y swm o hydrogen oedd ei angen i adweithio ag un môl o ocsigen



Mae tair bricsen yr un **swm** â thair pluen, er y bydd y màs yn wahanol

**Peidio â drysu â ...**
màs sylwedd neu fàs molar sylwedd

**Dweud**
Swm y syl-wedd

**Geiriau tebyg**
Faint o sylwedd

# Rhif Avogadro

y rhif $6.02 \times 10^{23}$, sef nifer yr atomau, moleciwlau neu unedau fformiwla mewn un môl o'r sylwedd

**Mewn geiriau eraill ...**
bydd gan un môl o unrhyw sylwedd $6.02 \times 10^{23}$ atom ynddo. Mae $6.02 \times 10^{23}$ yr un fath ag ysgrifennu
602 000 000 000 000 000 000 000

**Enghraifft**
Mae dwsin yn gysonyn sy'n golygu 12. Mae rhif Avogadro yn golygu $6.02 \times 10^{23}$

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/4rmbNt2




**Peidio â drysu â ...**
môl, sef swm y sylwedd sy'n cynnwys $6.02 \times 10^{23}$ atom

**Dweud**
Rhif Av-o-ga-dro

Mae gan 1 môl o garbon ac 1 môl o haearn ill dau $6.02 \times 10^{23}$ atom er bod ganddynt fasau gwahanol

# Decimetr ciwbig ($dm^3$)

uned cyfaint, yr un faint ag un litr (l), sy'n hafal i 1000 centimetr ciwbig ($cm^3$)

**Mewn geiriau eraill ...**
ffordd wahanol o ddisgrifio litr o sylwedd

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
[bit.ly/4rlKeA8](bit.ly/4rlKeA8)

**Dweud**
Dec-i-met-r ciw-big

**Dadansoddi**
Deci (degfed ran) metr (o fetr), ciwbig (yn ymwneud â chiwb neu'n dri dimensiwn)




**Enghraifft**
Roedd y bicer yn cynnwys un decimetr ciwbig (1 $dm^3$) o hylif

**Ystyron eraill**
Mae un decimetr ciwbig yr un fath â 1000 centimetr ciwbig ($cm^3$)

# Fformiwla empirig

mae'n defnyddio symbolau cemegol i roi'r gymhareb symlaf o atomau (neu ïonau) o bob elfen mewn sylwedd, fel $CH_2$ ar gyfer ethen sydd â'r fformiwla foleciwlaidd $C_2H_4$

**Mewn geiriau eraill ...**
ffordd o ddangos y gymhareb symlaf o atomau (neu ïonau) mewn cyfansoddyn

ethen

- $CH_2$ fformiwla empirig
- $C_2H_4$ fformiwla foleciwlaidd

**Enghraifft**
Mae gan sylweddau ïonig fformiwlâu empirig, fel $NaCl$, ond gallwn hefyd ddefnyddio fformiwlâu empirig i wneud pethau'n symlach ar gyfer moleciwlau mawr iawn. Mae gan glwcos, er enghraifft, y fformiwla foleciwlaidd $C_6H_{12}O_6$, a'r fformiwla empirig $CH_2O$

**Dweud**
Ffor-miw-la em-pir-ig

**Dadansoddi**
Fformiwla (ffordd o gynrychioli rhywbeth), empirig (yn seiliedig ar arsylwad)

**Geiriau tebyg**
Y gymhareb symlaf mewn rhifau cyfan

**Peidio â drysu â ...**
fformiwla foleciwlaidd – sy'n dangos yr atomau mewn un moleciwl unigol

# Màs (*m*)

priodwedd mater sy'n achosi i sampl o sylwedd deimlo grym disgyrchiant, caiff ei fesur mewn gramau (g)

**Mewn geiriau eraill ...**
faint o fater sydd mewn gwrthrych

**Enghraifft**
Màs y crwsibl yn y llun yw 48.29 g

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/4rOh9wN](bit.ly/4rOh9wN)




**Peidio â drysu â ...**
pwysau, sy'n rym oherwydd disgyrchiant ac sy'n cael ei fesur mewn Newtonau

**Dweud**
Màs

**Geiriau tebyg**
Y gair Saesneg 'massive', sy'n golygu gwrthrych sydd â màs mawr neu faint mawr

# Màs molar (*M*)

màs un môl o sylwedd, a roddir yn ôl gwerth ei fàs atomig cymharol neu ei fàs fformiwla cymharol, mewn gramau

**Mewn geiriau eraill ...**
màs un môl o gemegyn mewn gramau

**Enghraifft**
Màs molar carbon yw 12 g.
Màs molar alwminiwm yw 27 g

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/3MgX2bL




**Peidio â drysu â ...**
màs cymharol, sef màs cyfartalog yr atomau mewn elfen neu gyfansoddyn. Mae màs molar yn cael ei fesur mewn gramau, ond nid oes gan fàs cymharol unedau

**Dweud**
Màs mo-lar


# Cyfaint molar nwy ($V_m$)

y cyfaint a lenwir gan un môl o nwy, sydd tua 24 decimetr ciwbig ($dm^3$) ar dymheredd a gwasgedd ystafell

**Mewn geiriau eraill ...**
faint o le y mae un môl o nwy yn ei lenwi

**Dweud**
Cyf-aint mo-lar nwy

**Enghraifft**
Cyfaint molar ocsigen ar dymheredd a gwasgedd ystafell arferol yw 24 $dm^3$




Mae'r balwnau hyn i gyd yn cynnwys un môl o nwy. Mae ganddynt fasau gwahanol ond yr un cyfaint

**Geiriau tebyg**
Màs molar, sef mas môl o sylwedd

**Peidio â drysu â ...**
Cofiwch fod gan nwyon fàs

# Môl (mol)

yr uned ar gyfer swm y sylwedd, pan mai un môl yw'r swm sy'n cynnwys 6.02 x $10^{23}$ (rhif Avogadro) o atomau, moleciwlau neu unedau fformiwla

**Mewn geiriau eraill ...**
swm unrhyw sylwedd sy'n cynnwys 6.02 x $10^{23}$ atom

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/4aT3cbl

**Dweud**
Môl




Un môl o garbon


**Enghraifft**
Mae un môl o garbon yn cynnwys 6.02 x $10^{23}$ atom o garbon. Mae un môl o gopr yn cynnwys 6.02 x $10^{23}$ atom o gopr

**Peidio â drysu â ...**
màs molar, sef màs un môl o sylwedd

# Cyfaint (*V*)

faint o ofod tri dimensiwn sy'n cael ei lenwi gan sampl o sylwedd, caiff ei fesur mewn centimetrau ciwbig ($cm^3$) neu ddecimetrau ciwbig ($dm^3$)

**Mewn geiriau eraill ...**
faint o le mae gwrthrych yn ei lenwi.

**Arwyddo**

Gwyliwch fideo:
bit.ly/4rLu82g

**Dweud**
cyf-aint

**Enghraifft**
Cyfaint mwyaf posibl y silindr mesur oedd 500 $cm^3$




**Peidio â drysu â ...**
mililitrau, mae 1 mililitr yr un fath ag 1 $cm^3$. Ond mewn cemeg dylem ddefnyddio centimetrau ciwbig ($cm^3$) neu ddecimetrau ciwbig ($dm^3$)

# Economi atomau

Mewn hafaliad symbolau cytbwys, màs y cynnyrch a geisir fel canran o gyfanswm màs yr adweithyddion

**Mewn geiriau eraill …**
canran yr adweithyddion a allai fod yn gynnyrch defnyddiol yn y pen draw

**Enghraifft**
Os yw 100 g o adweithyddion yn cynhyrchu 75 g o gynnyrch defnyddiol, mae'r economi atomau yn 75%

$$\% \text{ economi atomau} = \frac{M_r \; cynnyrch \; a \; geisir \; fel}{M_r \; of \; total \; products} \times 100$$

**Dweud**
Ec-on-o-mi at-om-au


**Peidio â drysu â …**
cynnyrch canrannol, sef swm gwirioneddol y cynnyrch sy'n cael ei wneud mewn adwaith

# Hafaliad symbolau cytbwys

ar gyfer adwaith cemegol, mae hwn yn dangos fformiwlâu cemegol yr adweithyddion a'r cynhyrchion, wedi'u gwahanu gan saeth. Gellir ysgrifennu rhifau cyfan cyn y fformiwlâu i gydbwyso'r hafaliad

**Mewn geiriau eraill ...**
pan fydd nifer yr atomau ar gyfer pob elfen yr un fath ar ochr chwith ac ochr dde hafaliad

$$2H_2 + O_2 \rightarrow 2H_2O$$




**Enghraifft**
Mae hwn yn hafaliad symbolau cytbwys oherwydd bod pedwar atom hydrogen a dau atom ocsigen yn yr adweithyddion a'r cynhyrchion

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/4azWwgO](bit.ly/4azWwgO)

**Dweud**
Haf-al-iad sym-bol-au cyt-bwys

**Geiriau tebyg**
Hafaliad geiriau, sef pan fyddwn ni'n ysgrifennu enwau'r cemegion a ddim yn defnyddio'r symbolau


# Sgil gynnyrch

sylwedd a gynhyrchir gan adwaith cemegol ond nid dyma'r cynnyrch a geisir ac mae'n aml yn cael ei drin fel gwastraff

**Mewn geiriau eraill ...**
sylwedd sy'n cael ei wneud yn ystod adwaith nad yw'n brif gynnyrch

**Enghraifft**
Pan fydd methan yn adweithio ag ager i wneud hydrogen, mae carbon monocsid yn cael ei wneud fel sgil gynnyrch

**Peidio â drysu â ...**
Nid oes gan bob adwaith sgil gynnyrch




$$CH_4 + H_2O \rightarrow 3H_2 + CO$$

**Dweud**
Sgil gynn-yrch

**Dadansoddi**
Sgil (sy'n golygu 'o ganlyniad i') cynnyrch (y peth sy'n cael ei wneud)

**Geiriau tebyg**
Gwastraff – nid yw'r sgil gynnyrch yn wastraff bob amser, ac weithiau gellir ei ddefnyddio i ddiben arall

# Fformiwla gemegol

mae'n defnyddio symbolau cemegol i ddangos nifer cymharol yr atomau (neu'r ïonau) o bob elfen mewn sylwedd, fel $H_2O$ ar gyfer dŵr neu $NaCl$ ar gyfer sodiwm clorid

**Mewn geiriau eraill ...**

mae'r math hwn o fformiwla yn rhoi symbolau cemegol yr elfennau sydd â'u hatomau (neu eu hïonau) yn y sylwedd. Mae'r fformiwla hefyd yn dangos niferoedd cymharol yr atomau (neu'r ïonau) hyn

**Enghraifft**

Y fformiwla gemegol ar gyfer dŵr yw $H_2O$, sy'n dangos bod gan bob moleciwl ddau atom hydrogen ac un atom ocsigen wedi'u bondio at ei gilydd

**Dweud**

Fform-iw-la gem-eg-ol

$$H_2O$$

1 × atom ocsigen

2 × atomau hydrogen

**Peidio â drysu â ...**

rhifau cydbwysol neu gymarebau adweithio. Mae'r rhifau bach sy'n is-nodau yn dweud wrthym sawl atom sydd o elfen y symbol maent yn ei ddilyn

**Dadansoddi**

Fformiwla (ffordd benodol o ysgrifennu pethau), cemegol (yn ymwneud â sylweddau)

**Geiriau tebyg**

Fformiwla foleciwlaidd (ar gyfer moleciwlau)

**Cyd-destunau eraill**

Gall fformiwla hefyd olygu set o gyfarwyddiadau, fel fformiwla mathemateg, neu rysáit

# Gormodedd adweithydd

nid yw'n cael ei ddefnyddio i gyd mewn adwaith cemegol oherwydd bod adweithydd arall wedi rhedeg allan yn gyntaf

**Mewn geiriau eraill ...**
y sylwedd sy'n weddill ar ôl adwaith oherwydd bod mwy nag oedd ei angen

**Dweud**
gor-mod-edd ad-weith-ydd

**Dadansoddi**
Gormodedd (gormod o rywbeth) adweithydd (y sylwedd sydd gennych ar y dechrau mewn adwaith cemegol)

**Enghraifft**
Copr ocsid yw'r gormodedd adweithydd wrth wneud copr sylffad



Mae gormodedd copr ocsid i'w weld ar waelod y tiwb

**Peidio â drysu â ...**
adweithyddion, sef unrhyw gemegion sy'n adweithio â'i gilydd.
Ni fydd gan bob adwaith ormodedd adweithydd

# Adweithydd cyfyngol

mae'n cael ei ddefnyddio i gyd mewn adwaith cemegol, sydd felly'n cyfyngu ar faint o gynhyrchion y gellir eu ffurfio

**Mewn geiriau eraill ...**
yr adweithydd sy'n cael ei ddefnyddio i gyd gyntaf mewn adwaith ac sydd felly'n cyfyngu ar faint o gynnyrch y gellir ei wneud

**Enghraifft**
Yr asid sylffwrig oedd yr adweithydd cyfyngol yn yr adwaith; pan gafodd hwnnw ei ddefnyddio i gyd, daeth yr adwaith i ben

**Dweud**
Ad-weith-ydd cyf-yng-ol




Ar ddiwedd yr adwaith, mae'r asid sylffwrig wedi cael ei ddefnyddio i gyd

**Peidio â drysu â ...**
Nid yr adweithydd cyfyngol yw'r un sydd â'r swm lleiaf bob amser

**Geiriau tebyg**
Ffactorau cyfyngol, a all gynnwys ffactorau allanol fel tymheredd neu lefelau golau sy'n effeithio ar adweithiau.

# Bwred


tiwb cul gyda graddfa ar yr ochr a thap ar y gwaelod, caiff ei defnyddio i fesur yn fanwl gywir gyfaint yr hylif sy'n llifo allan ohoni mewn titradiad

**Mewn geiriau eraill ...**
tiwb sy'n cael ei ddefnyddio i ychwanegu hylifau yn araf at adwaith.

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/3OKTuPB



**Dweud**
Bwr-ed



**Enghraifft**
Defnyddiwch fwred i ychwanegu'r asid at y fflasg gonigol fesul diferyn

**Peidio â drysu â ...**
pibedau, sydd â bwlb ar y pen i godi hylifau

**Geiriau tebyg**
Biwret, sef hydoddiant sy'n cael ei ddefnyddio i brofi am broteinau


# Crynodiad (c)

nifer y gramau neu folau o hydoddyn sydd ym mhob decimetr ciwbig o hydoddiant, caiff ei fesur mewn $g/dm^3$ neu $mol/dm^3$

**Mewn geiriau eraill ...**
swm y sylwedd mewn cyfaint penodol o hylif

**Enghraifft**
Crynodiad yr asid oedd 2 $mol/dm^3$

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/3MgZXkJ




**Peidio â drysu â ...**
cryfder sylwedd, neu gyfaint sylwedd. Gallwch gael cyfaint bach o hydoddiant hynod o grynodedig

**Dweud**
Cryn-od-iad

# Canlyniadau cydgordiol

dau ganlyniad neu fwy sy'n cyd-fynd yn agos â'i gilydd; mewn titradiad mae dau ganlyniad yn gydgordiol os ydynt o fewn 0.1 centimetr ciwbig ($cm^3$) i'w gilydd

**Mewn geiriau eraill ...**
canlyniadau mewn arbrawf sy'n debyg iawn i'w gilydd

**Enghraifft**
Ailadroddodd y myfyrwyr yr arbrawf dair gwaith a chawsant ganlyniadau cydgordiol

| | **Titradiad 1** | **Titradiad 2** | **Titradiad 3** |
|---|---|---|---|
| **Cyfaint yr asid a ychwanegwyd ($cm^3$)** | 34.56 | 34.72 | 34.51 |

Mae Titradiad 1 a Thitradiad 3 yn ganlyniadau cydgordiol

**Peidio â drysu â ...**
manwl gywir – gall canlyniadau fod yn gydgordiol ond ddim yn fanwl gywir os nad ydynt yn agos at y gwerth gwirioneddol

**Dweud**
Can-lyn-iad-au cyd-gord-iol

# Diweddbwynt

mewn titradiad, yr union gyfaint a ychwanegwyd pan fydd y dangosydd yn newid lliw

**Mewn geiriau eraill ...**
Y pwynt pan fydd adwaith titradu wedi'i gwblhau

**Enghraifft**
Daeth diweddbwynt y titradiad pan oedd 23 $cm^3$ o asid wedi cael ei ychwanegu.



**Dweud**
Diw-edd-bwynt

**Peidio â drysu â ...**
Nid yr adeg pan fo'r fwred yn wag yw'r diweddbwynt

# Silindr mesur

tiwb tal gyda graddfa ar yr ochr sy'n cael ei ddefnyddio i fesur cyfaint hylif neu gyfaint nwy sy'n byrlymu i fyny iddo drwy ddŵr

**Mewn geiriau eraill ...**
tiwb sy'n cael ei ddefnyddio i fesur cyfaint

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
[bit.ly/3MyO0XF](https://bit.ly/3MyO0XF)



**Dweud**
Sil-in-dr mes-ur




**Enghraifft**
Fe wnaethom ddefnyddio silindr mesur i fesur 25 cm$^3$ o ddŵr

**Peidio â drysu â ...**
Offer mesur eraill fel bwredau neu bibedau

# Dangosydd pH

sylwedd y mae ei liw pan fydd yn uwch na gwerth pH penodol yn wahanol i'w liw pan fydd o dan y gwerth pH hwnnw, fel methyl oren neu ffenolffthalein

**Mewn geiriau eraill ...**
cemegyn sy'n newid lliw i ddangos a yw sylwedd yn asid ynteu'n alcali

**Enghraifft**
Wrth i ni ychwanegu asid at alcali, newidiodd y dangosydd pH o borffor i wyrdd ac yna coch

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: [bit.ly/46bKxVx](https://bit.ly/46bKxVx)



**Peidio â drysu â ...**
Mae gan rai dangosyddion pH amrywiaeth o liwiau, ond mae gan eraill, fel methyl oren, nifer llai

**Dweud**
Dang-os-ydd pi-heitsh

**Geiriau tebyg**
Mae Dangosydd Cyffredinol yn fath penodol o ddangosydd pH

# Pibed

tiwb cul sy'n cael ei lenwi drwy sugnedd, gyda marc neu raddfa ar yr ochr, caiff ei ddefnyddio i godi cyfaint mesuredig o hylif

**Mewn geiriau eraill ...**
teclyn a ddefnyddir i fesur a throsglwyddo cyfaint bach, union o hylif

**Enghraifft**
Defnyddiwch bibed i ychwanegu 5 diferyn o asid at y cymysgedd yn araf

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/40d8bxr



**Peidio â drysu â ...**
diferydd, sy'n edrych yn debyg ond nad oes ganddo fesuriadau ar yr ochr

**Dweud**
pib-ed

# Hydoddiant


y cymysgedd a gynhyrchir pan fydd hydoddyn yn hydoddi mewn hydoddydd

**Mewn geiriau eraill ...**
cymysgedd lle mae un sylwedd yn hydoddi'n llwyr mewn sylwedd arall, fel halen mewn dŵr

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/44uofhF

**Dweud**
Hyd-odd-iant

**Dadansoddi**
Hydawdd (yn gallu cael ei hydoddi) + yr ôl-ddodiad 'iant'




**Geiriau tebyg**
Weithiau gelwir hydoddiant halen di-haint yn 'hydoddiant halwynog'

**Enghraifft**
Mewn hydoddiant o ddŵr heli, halen yw'r hydoddyn a dŵr yw'r hydoddydd

**Peidio â drysu â ...**
dyfrllyd. Mae hydoddiannau'n aml yn cael eu ffurfio mewn dŵr, ond maent yn gallu ffurfio mewn hylifau eraill hefyd

# Titradiad

dull o ganfod crynodiad hydoddiant drwy adwaith â hydoddiant arall sydd â chrynodiad diffiniedig

**Mewn geiriau eraill ...**
dull trachywir o ychwanegu un hylif at un arall.

**Enghraifft**
Gellir cyfrifo cyfaint yr asid sydd ei angen i niwtralu alcali drwy ddefnyddio titradiad

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/466WhIX



**Peidio â drysu â ...**
Niwtralu – gallwn ddefnyddio titradiad i niwtralu, ond gellir ei ddefnyddio ar gyfer adweithiau eraill hefyd

**Dweud**
Tit-rad-iad

# Titr


cyfaint yr hydoddiant mae angen ei ychwanegu o'r fwred i gyrraedd y diweddbwynt

**Mewn geiriau eraill ...**
swm yr hylif rydych chi'n ei ychwanegu o'r fwred

**Arwyddo**

Gwyliwch fideo: [bit.ly/40eZqCY](bit.ly/40eZqCY)

**Dweud**
Tit-r




**Enghraifft**
Y titr roedd ei angen i niwtralu'r alcali oedd 24 cm$^3$

**Peidio â drysu â ...**
diweddbwynt, sef pan fydd yr adwaith wedi gorffen; gellir ei ddefnyddio i gyfrifo'r titr


# Cynnyrch gwirioneddol

màs neu faint o gynnyrch gwirioneddol sy'n cael ei wneud mewn adwaith cemegol

**Enghraifft**
Mae'r cynnyrch gwirioneddol mewn arbrawf yn aml yn llai na'r hyn sy'n cael ei ragfynegi

**Mewn geiriau eraill ...**
swm gwirioneddol y cynnyrch sy'n cael ei wneud

**Dweud**
Cynn-yrch gwir-ion-edd-ol




**Peidio â drysu â ...**
Cynnyrch a ragfynegir/cynnyrch damcaniaethol, sef yr uchafswm y **gellid** ei wneud mewn adwaith

**Geiriau tebyg**
Cynnyrch canrannol a chynnyrch a ragfynegir/cynnyrch damcaniaethol, mae pob un ohonynt yn gysylltiedig


# Chwistrell nwy

tiwb gwydr gyda graddfa ar yr ochr a phlymiwr sy’n symud yn rhydd, caiff ei ddefnyddio i gasglu ac i fesur cyfaint nwy.

**Mewn geiriau eraill ...**
darn o gyfarpar sy’n cael ei ddefnyddio i fesur cyfaint nwy

**Enghraifft**
Gellir defnyddio chwistrell nwy i fesur cyfradd cynhyrchu nwy yn yr arbrawf

**Dweud**
Chwis-trell nwy



**Peidio â drysu â ...**
chwistrell hylif, sydd yn aml wedi’i gwneud o blastig

# Cynnyrch canrannol

y cynnyrch gwirioneddol, wedi'i roi fel canran o'r cynnyrch damcaniaethol

**Mewn geiriau eraill ...**
ffordd o ddangos faint o gynnyrch sydd wedi cael ei wneud o'i gymharu â'r hyn yr oedd disgwyl ei wneud

**Enghraifft**
Mewn arbrawf, roedd y cynnyrch canrannol yn 75%

$$Cynnyrch\ canrannol = \frac{\text{Cynnyrch gwirioneddo}}{\text{cynnyrch damcaniaethol}} \times 100$$

**Dweud**
Cynn-yrch can-rann-ol

**Peidio â drysu â ...**
cyfradd yr adwaith. Nid yw'r cynnyrch yn gysylltiedig â'r cyflymder

**Geiriau tebyg**
Cynnyrch damcaniaethol a chynnyrch gwirioneddol, sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r cynnyrch canrannol


# Cynnyrch a ragfynegir/ cynnyrch damcaniaethol

uchafswm y màs neu faint o gynnyrch gallech ei wneud mewn adwaith cemegol os na cheir unrhyw adweithiau eraill ac os na chollir unrhyw beth

**Mewn geiriau eraill ...**
uchafswm y cynnyrch y gellid ei wneud pe bai popeth yn adweithio'n berffaith

**Dweud**
Cynn-yrch a rag-fyn-eg-ir/
cynn-yrch dam-can-iaeth-ol

**Enghraifft**
Roedd y cynnyrch damcaniaethol yn 10 g, ond dim ond 8 g a gynhyrchwyd gan y myfyrwyr




**Geiriau tebyg**
Cynnyrch gwirioneddol a chynnyrch canrannol – mae pob un ohonynt yn gysylltiedig

# Clorian

dyfais electronig sydd â hambwrdd metel ac sy’n rhoi darlleniad digidol, caiff ei defnyddio i fesur màs sampl o sylwedd

**Mewn geiriau eraill ...**
dyfais ddigidol i fesur màs yn drachywir

**Enghraifft**
Defnyddiwch glorian i fesur 5.2 g o halen

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo: bit.ly/4rMUHEm



**Peidio â drysu â ...**

**Dweud**
Clor-ian

# Cyfansoddiad canrannol


màs cymharol atom(au) un elfen mewn cyfansoddyn, wedi'i roi fel canran o'r màs fformiwla cymharol

**Mewn geiriau eraill ...**
y ganran o sylwedd sydd wedi'i gwneud o bob elfen

**Peidio â drysu â ...**
Nifer yr atomau mewn cyfansoddyn. Mae gan rai atomau fwy o fàs nag eraill

**Dweud**
Cyf-an-sodd-iad cym-har-ol

**Enghraifft**
Cyfansoddiad canrannol dŵr yw tua 11% hydrogen ac 89% ocsigen.
Màs atomig cymharol **hydrogen** yw **1** (x2 atom = 2)
Màs atomig cymharol **ocsigen** yw **16**
Cyfanswm y màs = **18**
Cyfansoddiad: **Hydrogen = 11%, Ocsigen = 89%**



# Màs atomig cymharol ($A_r$)

màs cyfartalog atom o elfen, gan ystyried canrannau isotopau'r elfen sy'n digwydd yn naturiol

**Mewn geiriau eraill ...**
màs cyfartalog atom o elfen benodol fel y dangosir yn y tabl cyfnodol

**Enghraifft**
Màs atomig cymharol ocsigen yw 16

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | 12 | 14 | 16 |
| **B** | **C** | **N** | **O** |
| Boron | Carbon | Nitrogen | Ocsigen |
| 5 | 6 | 7 | 8 |

**Arwyddo**
Gwyliwch fideo:
bit.ly/4al4ZG3

**Peidio â drysu â ...**
Nid dyma fàs gwirioneddol yr atom, gan y byddai hwnnw'n rhif bach iawn

**Geiriau tebyg**
Màs molar, sef màs un môl o sylwedd mewn gramau

**Dweud**
Màs at-om-ig cym-har-ol

# Màs fformiwla cymharol ($M_r$)

cyfanswm masau atomig cymharol yr holl atomau sydd mewn fformiwla gemegol sylwedd wedi'u hadio at ei gilydd

**Mewn geiriau eraill ...**
cyfanswm yr holl fasau atomig cymharol mewn cyfansoddyn

**Dweud**
Màs ffor-miw-la cym-har-ol

**Peidio â drysu â ...**
màs molar, sef màs un môl o sylwedd mewn gramau

**Enghraifft**
Màs fformiwla cymharol dŵr yw 18.
Mae moleciwl dŵr wedi'i wneud o ddau atom hydrogen ac un atom ocsigen.
Màs atomig cymharol **hydrogen** yw **1** (x 2 atom = **2**)
Màs atomig cymharol **ocsigen** yw **16**
Cyfanswm y màs = **18**

| 1<br>H<br>Hydrogen<br>1 | 16<br>O<br>Ocsigen<br>8 |
|---|---|

# Màs cymharol

màs gronyn yn gymharol i $\frac{1}{12}$ o fàs atom $^{12}C$

**Mewn geiriau eraill ...**
màs unrhyw ronyn, atom neu foleciwl o'i gymharu â charbon

**Enghraifft**
Màs cymharol proton yw 1

| | Màs Cymharol |
|---|---|
| **Proton** | 1 |
| **Niwtron** | 1 |
| **Electron** | 0.000538 |

**Dweud**
màs cym-har-ol

**Peidio â drysu â ...**
Nid yw màs cymharol yn cael ei fesur mewn gramau

**Geiriau tebyg**
Màs atomig cymharol, sef yr atom cyfan, neu fàs fformiwla cymharol, sef moleciwl cyfan

# Diolchiadau

Y lluniau ar sleidiau 5, 11 a 30 © GIPhotoStock/Science Photo Library

Y llun ar sleid 9 © Martyn F. Chillmaid/ Science Photo Library

Y lluniau ar sleidiau 4, 12, 19, 22–25, 27 a 33 © Shutterstock

Pob llun arall © Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

Geirfâu Iaith Arwyddion Prydain o dermau'r cwricwlwm gan yr SSC
https://www.ssc.education.ed.ac.uk/BSL/

Geiriadur Iaith Arwyddion Prydain
https://www.signbsl.com/